

# Gwneud Caerdydd yn fwy egnïol, iachach a hapusach

Menter gymdeithasol yw The Bike Lock sydd wedi ymrwymo i wneud Caerdydd (a thu hwnt) yn ddinas fwy egnïol, iachach a hapusach.

Tom Overton yw sylfaenydd a chyfarwyddwr The Bike Lock ac aeth i sefydlu'r fenter er mwyn cael gwared ar y rhwystrau sy'n atal pobl rhag teithio'n llesol.

Daw gwreiddiau'r cysyniad o 2020 ac agorodd The Bike Lock ei ddrysau a dechrau masnachu ym mis Hydref 2022. Erbyn hyn mae ganddo weithlu amrywiol o un aelod o staff llawn amser a saith aelod o staff rhan-amser. Mae The Bike Lock yn cynnwys caffi sy'n gwerthu cynhyrchion lleol, cynaliadwy a moesegol ac mae hefyd yn darparu gofod cymunedol a rennir ar gyfer gwaith a digwyddiadau. Ac fel mae'r enw'n awgrymu, mae'n cynnig parcio diogel i dros 50 o feiciau, cawodydd a loceri.

Pwrpas The Bike Lock yw galluogi pobl i symud mwy, teithio'n llesol a phrynu cynhyrchion gan fusnes cynaliadwy moesegol ac annibynnol, yn ogystal â galluogi pobl i wneud eu taith ar droed neu ar feic gan wneud gwahaniaeth go iawn nid yn unig i'r ddinas, ond i'r gymuned ac i'r unigolyn.

Mae pedair prif elfen wrth wraidd y busnes:

***Ymgysylltu*** - byddwn yn ymgysylltu â phawb ac yn gwneud i bawb deimlo'n ddiogel a bod croeso iddyn nhw

***Pwrpas The Bike Lock yw galluogi pobl i symud mwy, teithio'n llesol a phrynu cynhyrchion gan fusnes cynaliadwy moesegol ac annibynnol***

***Gofalu am bawb*** - byddwn yn mynd yr ail filltir i ofalu am bawb - mae gennym fwrdd talu ymlaen llaw ac rydyn ni'n cynnig diodydd am ddim bob dydd i'r rhai mewn angen

***Glanhau*** – Mae gennym ni obsesiwn â glanweithdra ac rydyn ni'n benderfynol o gael y toiledau glanaf yng Nghaerdydd

***Gofal*** – rydyn ni'n ymfalchïo mewn gofalu am ein gilydd, ein cwsmeriaid a'r gymuned. Y bobl sy'n bwysig!

Mae The Bike Lock yn gweithio gyda nifer o gyflenwyr moesegol lleol sy'n gwneud rhedeg y busnes yn fwy heriol yn ôl Tom, ond dyma'r peth iawn i'w wneud ac yn The Bike Lock maen nhw'n credu'n gryf mewn gwneud pethau sy'n iawn i'r amgylchedd, i'r gymuned ac i bobl.

Mae'r busnes hefyd wedi darparu sesiynau magu hyder i gefnogi'r rhai sydd am feicio ond sydd heb feicio ers blynyddoedd, ac mae hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol.

